# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

**RHAN 1**

RHEOLEIDDIO GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL

**PENNOD 7**

TROSOLWG O'R FARCHNAD

**61 Asesu cynaliadwyedd ariannol darparwr gwasanaeth**

(1) Pan fo'r adran hon yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth, rhaid i Weinidogion Cymru asesu cynaliadwyedd ariannol busnes y darparwr gwasanaeth o gynnal gwasanaethau rheoleiddiedig.

(2) Rhaid i asesiad o gynaliadwyedd ariannol busnes y darparwr gwasanaeth o dan is-adran (1) gynnwys ystyriaeth o'i lywodraethu corfforaethol.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru, yn sgil asesiad o dan is-adran (1), yn meddwl bod risg sylweddol i gynaliadwyedd ariannol busnes y darparwr gwasanaeth, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth ddatblygu cynllun o ran sut i liniaru neu i ddileu'r risg, a

(b) trefnu, neu ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth drefnu, i berson sydd â'r arbenigedd proffesiynol priodol gynnal adolygiad annibynnol o'r busnes.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gosod gofyniad ar ddarparwr gwasanaeth o dan is-adran (3)(a), cânt hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth—

(a) cydweithredu â hwy wrth ddatblygu'r cynllun, a

(b) cael eu cymeradwyaeth i'r cynllun terfynol.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn trefnu adolygiad o dan is-adran (3)(b), caniateir iddynt adennill oddi wrth y darparwr gwasanaeth unrhyw gostau y maent yn mynd iddynt mewn cysylltiad â'r trefniadau (gan gynnwys unrhyw gostau gweinyddol ar gyfer gwneud y trefniadau y mae'n briodol eu hadennill yn eu barn hwy).

(6) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer eu galluogi i gael oddi wrth unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy wybodaeth y maent yn credu y bydd yn eu cynorthwyo i asesu cynaliadwyedd ariannol darparwr gwasanaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddo.

(7) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (6) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.

(8) Ond nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i reoliadau—

(a) sy'n diwygio rheoliadau eraill a wneir o dan yr is-adran honno, a

(b) nad ydynt, ym marn Gweinidogion Cymru, yn rhoi effaith i unrhyw newid sylweddol yn y ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau sydd i'w diwygio.

(9) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch gwneud yr asesiadau sy'n ofynnol gan is-adran (1).